# Cymry'r Rhondda

**Gan DAFYDD GUTO**

FE ALL cardiau post adrodd cyfrolau. Maent yn llawn gwybodaeth ar brydiau. Dyna ddigwyddodd yn ddiweddar pan ddaeth dau gerdyn post du a gwyn i'm meddiant. Nid oedd hyd yn oed farciau post arnynt ac eto buont yn gyfrwng holi a stilio, a chryn dipyn o grafu pen! Yn wir, roedd 'hanes' ynghlwm wrthynt.

Dyna'r cerdyn gyda'r darlun o golofnau'r Cymreigyddion yn y Rhondda 1910-21

Daeth mymryn o wybodaeth i'r fei ynghylch y cerdyn post yma oddi wrth Mrs Patricia Moore, Archifydd Morgannwg:

"Mae defnyddiwr rheolaidd o Lyfrgell Ganolog Treorci yn cofio'n dda Cymdeithas y Cymreigyddion ... Fe'i sefydlwyd yn 1910 gyda'r bwriad o hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn fynych ynghyd â darlithoedd."

Roedd y Gymdeithas yr un mor ddylanwadol mewn lleoedd eraill yng Nghymru, er enghraifft prawf pellach o weithgarwch y Cymreigyddion yw cyhoeddiad megis *Cyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Cymreigyddion Bethesda Dydd Gwyl Ddewi 1864*.

Ond i ddychwelyd i'r Rhondda a'r cymoedd sy' wedi chwarae rhan allweddol ym mywydau rhai o'm teulu o ochr fy mam. Ebe Mrs Moore, a diolchiadau rif y gwlith i'r cyfaill o Dreorci:

"Deuai'r aelodau o bedwar capel Cymraeg yn y cylch. Y capeli a restrir yn *Kelly's Directory for South Wales 1914* oedd Capel y Bedyddwyr Hebron, Ton Pentre; Capel y Methodistiaid Jerusalem, Ton; Capel y Bedyddwyr Nasareth, Pentre; Capel yr Annibynwyr, Bethesda, Ton Pentre. Llywydd cychwynnol y mudiad yn y lleoedd a enwyd uchod oedd y Parch M.H. Jones, gweinidog capel Jerusalem a'r Ysgrifennydd oedd O.J. Jones. Bu'r Gymdeithas mewn bri hyd y 50au."

O bosib fod rhai o ddarllenwyr *Y Casglwr* yn gyfarwydd â rhai o'r wynebau sy'n y ffotograff uchod.

**GWELER Y DARLUN GYFERBYN**

*AR WERTH*
*Cannoedd o lyfrau Cymraeg – cymysg, tipyn o bopeth, am brisiau rhesymol.*
*Anfonwch am restr at Gwynn Jones, 17 Erw Hir, Caerfyrddin, Dyfed. (Ffôn: 0267/235031).*




# BRENHINIAETH ENLLI

AR YR ail gerdyn post ceir golygfa o Enlli a llun Love Pritchard, sef ail Frenin Enlli. Os oes llygaid barcud gennych y mae'n bosib gweld y llythrennau 'F.H. May' a 'Post Office. Roberts' yng nghongl dde'r cerdyn.

F.H. May oedd Frederick H. Mahaffey, brodor o Belfast. Bu'n byw am gyfnod helaeth o'i fywyd ym Mhwllheli. Tynnwr lluniau ydoedd wrth ei waith beunyddiol. Cynhyrchodd yn ogystal nifer o gardiau post sy'n darlunio golygfeydd ym Mhen Llŷn. Bu wrth y gwaith rhwng 1907-1953.

Ar Fawrth 23ain 1960 bu farw F.H. May yn 82 mlwydd oed mewn ysbyty i'r henoed yng Nghaernarfon. Ond ym mynwent newydd Pwllheli y'i claddwyd.

Diddorol yw'r llun o Frenin Enlli. Yn ôl *Y Cyfaill Eglwysig* Gorffennaf 1916 roedd 'Brenin Lundy, sef y Parch H. Grossett yn teyrnasu ar yr ynys o'r flwyddyn 1864 hyd 1911.' A dywedir yn ysmala: 'Beth feddylia ei 'Fawrhydi' Love Pritchard, Brenin Enlli, o'i hen frawd breiniol yn berchen ei deyrnas, ac yn weinidog i'w ddeiliaid? Dyna nod i'r meudwy Love i lywio amdano.'

Yn *Y Genedl* 1924 sonnir am ddiorseddu hen Frenin Enlli, sef John Williams, a oedd wedi marw yn Nhloty Pwllheli ac yntau erbyn hynny yn 84 mlwydd oed. Etholwyd Love Pritchard yn ei le gan Drydydd Barwn Niwbwrch. Rhoddwyd iddo'r hawl i gadw trefn ar yr Ynys. Ond yr oedd yn atebol i stad Glynllifon, a'r Barwn oherwydd eiddo'r bobl fawr oedd Enlli bryd hynny.

Bu Love Pritchard yn ddigon ffodus i dderbyn coron Enlli a ddisgrifir gan Gwylfa fel 'rhywbeth o bres a llafnau alcam tenau', a'i bod yn 1931 i'w gweld yng Nglynllifon. Dywaid Gruffydd Parri yn 1960 mai ym Moduan roedd y 'goron'. Ble mae hi erbyn hyn, tybed? A ble mae'r blwch arian a berthynai i Ail Frenin Enlli?

Yn 1925 cyfansoddwyd cerdd a oedd yn tystio bod Love Pritchard ar fin ymadael ag Enlli, a'i fod â'i fryd ar fyw ar y 'Tir Mawr':

*Tyr y llef o Bentir Lleyn,*
. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .
*'Frenin Enlli' paid â chefnu*
*Ar dy deyrnas yn y môr.*

John T. Job piau'r geiriau. Ond ymhen blwyddyn bu farw Brenin Olaf Enlli. Ys gwn i a oedd Love Pritchard yn gwybod am 'Galendr Enlli'? Ond stori arall ydyw honno.

* * *

A DYMA gofio tri brenin yn Enlli. Y cyntaf oedd John Williams, Cristyn. Cafodd ef ei goroni gyda phomp ac anrhydedd mawr. Daeth llong ryfel yno, a dynion pwysig ynddi. Casglodd pobl yr ynys i gyd at ei gilydd, a John Williams yn penlinio yn y canol.

Yna daliodd y pennaeth gleddyf uwch ei ben gan ddywedyd: "John Williams yr wyf yn dy goroni yn Frenin Enlli, i lywodraethu'n union a chyfiawn." Yna rhoddodd goron felen hardd ar ei ben, 'wn i ddim a oedd yn aur ai peidio. Uwchben ogof Gunan y bu'r coroni.

Yna cafodd gwch mawr cryf gan gwmni'r Trinity, a fo fyddai'n gofalu am nwyddau i'r goleudy. Byddai'n rhaid iddo fynd i Gaergybi yn aml. Ei ddiwedd oedd boddi drwy ddamwain, syrthio o'r cwch heb fod ymhell o'r lan. Trychineb mawr i'w wraig oedd hyn - y diwrnod cynt ganed ei unig fab.

John Williams oedd enw'r mab hefyd, a phan dyfodd i fyny, yr oedd ef yn dod i le ei dad i fod yn frenin. Nid oes llawer o hanes gwerth i'w ddweud amdano ef. Galwyd ef i'r tir mawr, ac yno y bu farw.

Yr oedd ganddo dair mil o bunnau yn gadael Enlli, ond bu farw'n dlawd ac ni ŵyr neb i ble'r aeth yr arian.

Yr oedd Enlli heb frenin yn awr. Un dydd dywedodd Love: "Yr wyf fi am fod yn frenin yn awr." Gwahoddodd bawb i ddod ar y llecyn gwastad gwyrdd sydd uwchben y Cafn ac fe'i cyhoeddodd ei hun yn frenin. Yn y tir mawr y bu yntau farw hefyd.

**Cyfeiriadau at Frenin Enlli:**

Diorseddu'r Brenin. *Y Genedl* Tachwedd 3ydd, 1924 t.5. col.5;
JOB, John T. Apêl at "Frenin Enlli". *Y Cyfaill Eglwysig* Ebrill 1925. t.87;
(Gol.) JONES, Peter Hope. *Enlli ddoe a heddiw.* Gwasanaethau Archifau Gwynedd, 1987. t.60, darluniau John Williams (c.1899); Love Pritchard(1925);
JONES, R. Gerallt. *Pererindota* Christopher Davies, 1978, t.94; Love Pritchard a'i goron, ff.d./g t.105;
OWENS, Ella, *Ynys Enlli ar hyd yr oesau.* Project Treftadaeth a diwylliant. Awdurdod Addysg Gwynedd dan nawdd y Swyddfa Gymreig, 1987; rhan o becyn cyfeirio;
PARRY, Gruffydd. *Crwydro Llŷn ac Eifionydd.* Llyfrau'r Dryw, 1960 t.167;
ROBERTS, R.G. (Gwylfa) Brenhiniaeth olaf Ynys Enlli. *Dysgedydd,* Mehefin 1931 tt.163,167;
JONES, Jennie. *Tomos o Enlli,* Llandybie, Llyfrau'r Dryw, 1964 tt.46-47;

**LLYFRNODAU**

FE ALLWCH gasglu unrhywbeth, hynny ydi os oes yr amynedd a'r amser gennych! Faint ohonoch er enghraifft sy'n casglu llyfrnodau. Na, nid cellwair a wnaf ac nid sôn am Lyfr hen nodiant ychwaith! Ys gwn i faint ohonoch sy'n berchen llyfrnodau? Dyna'r un a welodd olau dydd am y tro cyntaf erioed yn 'Steddfod Genedlaethol Cymru Llanrwst, 1951: